# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 8 Mehefin 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu manylion nifer yr achosion pan mae gweithwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi colli gwaith oherwydd eu bod yn dioddef o straen er mis Gorffennaf 2007, ac a ellir dadansoddi hyn fesul adran a hefyd fesul (a) swm yr union ddiwrnodau gwaith, (b) cyfanswm yr absenoldebau a (c) cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollir fesul gweithiwr? (WAQ54293)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n gyfrifol am faterion staffio ac rwyf wedi gofyn iddi ysgrifennu atoch.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo gwasanaeth rheilffordd uniongyrchol rhwng Aberystwyth a Llundain? (WAQ54250)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Dim ond rwy'nyn ymwybodol bod Trenau Arriva Cymru yn ystyried gwasanaeth o'r fath.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r damweiniau bach a mawr ar gefnffordd yr A487 rhwng Tollborth y De Aberystwyth a Phont Trefechan Aberystwyth a gofnodwyd rhwng 1999 a nawr? (WAQ54251)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr 1999 a 31 Rhagfyr 2007, mae 30 o ddamweiniau wedi bod ar hyd yr A487 rhwng Southgate (mynediad i Fferm Crugiau) a Phont Trefechan.

Mae'r tabl isod yn dangos ffigurau blynyddol a difrifoldeb y damweiniau.

DAMWEINIAU

| BLWYDDYN | ANGHEUOL | DIFRIFOL | BACH | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| 1999 | 1 | 0 | 4 | 5 |
| 2000 | 0 | 1 | 1 | 2 |
| 2001 | 0 | 2 | 2 | 4 |
| 2002 | 0 | 1 | 2 | 3 |
| 2003 | 0 | 2 | 1 | 3 |
| 2004 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| 2005 | 0 | 1 | 6 | 7 |
| 2007 | 0 | 2 | 3 | 5 |
| Cyfanswm | 1 | 10 | 19 | 30 |

Bydd data ar gyfer 2008 ar gael ar ôl ei gyhoeddi'n ddiweddarach ym mis Mehefin.

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Yn dilyn trafodaeth eich adran ag Air Products, Acrefair, Wrecsam, a gan nodi'r amserlenni tynn dan sylw, pryd y byddwch yn ymateb gyda chynnig pendant i gefnogi'r gwrthgynnig i gau'r safle hwn? (WAQ54289)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'r cwmni wedi rhoi sicrwydd i ni y cawn gopïau o fersiwn drafft cyntaf eu gwrthgynigion yn erbyn cau'r safle yn gynnar yr wythnos nesaf a dim ond ar y cam hwn y gallwn gael trafodaethau ystyrlon am y cymorth sydd ar gael ac amlinellu manylion cymorth cadarn. Fodd bynnag, mae fy Rheolwyr Cydberthnasau yn Llanelwy, mewn cydweithrediad agos â Thîm Datblygu Economi

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, wedi bod yn gweithio ar gyfres o gynigion o gymorth ariannol posibl y gallai'r cwmni fanteisio arnynt ar yr adeg briodol.

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Yn dilyn trafodaeth eich adran ag Air Products, Acrefair, Wrecsam, pa sylwadau y byddwch yn eu gwneud i'r cwmni yn Allen Town, Pennsylvania, UDA, i gefnogi gwrthgynigion i gadw'r safle hwn ar agor? (WAQ54291)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rydym wedi gofyn i gynrychiolwyr o dîm Busnes Rhyngwladol Cymru yn yr UD i i gael trafodaethau gyda chynrychiolwyr allweddol y cwmni yn yr UD ar yr adeg briodol, yn fwyaf priodol unwaith y bydd y gwrthgynnig ar gyfer safle Acrefair ar gael i ni

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Yn dilyn trafodaeth eich adran ag Air Products, Acrefair, Wrecsam, (a) a fydd yn rhaid cael cymeradwyaeth dan reolau cymorth gwladwriaethol Ewrop ar gyfer unrhyw gymorth ariannol a ystyrir a (b), os felly, pa gamau a gymerwyd i sicrhau hyn? (WAQ54292)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:**
(a) Mae Acrefair yn ardal a gyfyngir gan gyfyngiadau Ewropeaidd. Oherwydd uchafswm y grant posibl sydd ar gael gellir awdurdodi hwn gan Buddsoddi Cymru. Rydym yn trafod gyda'n tîm Cymorth Gwladwriaethol bob llwybr sydd ar gael i gynorthwyo'r cwmni.
(b) Caiff unrhyw gais am grant ei brosesu'n briodol ar yr adeg briodol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**David Melding (Canol De Cymru):** Faint o bobl sy'n byw â chyflyrau iechyd meddwl sydd wedi cael gafael ar daliadau uniongyrchol yn y flwyddyn ddiwethaf y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer, ac a wnaiff y Gweinidog ddadansoddi'r data yn ôl ardaloedd awdurdodau lleol? (WAQ54297)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Dengys gwybodaeth a gasglwyd gan Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan yr Awdurdod Lleol bod 109 o oedolion a phobl hŷn â salwch meddwl wedi cael budd o drefniant Taliadau Uniongyrchol yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2008. Ni chesglir gwybodaeth am nifer y bobl sy'n cofrestru am daliadau uniongyrchol ym mhob awdurdod lleol yn ganolog.